

Adroddiad Ymchwil

Adroddiad Ymwelwyr Cymru
2019

Yr Is-adran Amgueddfeydd,
Archifau a Llyfrgelloedd



Paratowyd ar gyfer:
Yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a
Llyfrgelloedd

Paratowyd gan:
Beaufort Research

Manylion Cyswllt

Cyswllt yr asiantaeth: Fiona McAllister/Catrin Davies

Dyddiad: Chwefror 2020

Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3BG

(029) 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Telerau'r Contract

Oni chytunir yn wahanol, mae'r hawlfraint ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon yn dal i fod yn eiddo i Beaufort Research Ltd ac ni ellir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y cwmni.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwywyd nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau maes.

© Beaufort Research Ltd 2020

Cynhyrchwyd yn unol ag



Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol.....	1
2. Nodau ac amcanion.....	4
3. Methodoleg.....	5
4. Canfyddiadau'r ymchwil.....	6
4.1 Proffil ymwelwyr ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru.....	6
4.2 Agweddau tuag at amgueddfeydd.....	7
4.3 Amllder ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru	10
4.4 Ailymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru a'u hargymell	10
4.5 Cymhellion dros ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru.....	11
4.6 Rhesymau dros beidio ag ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru.....	12

Atodiad I: Rhestr fanwl o leoliadau'r arolwg

Atodiad II: Holiadur arolwg Cam 1 (cyfweliadau wyneb-yn-wyneb)

Atodiad III: Holiadur arolwg Cam 2 (cyfweliadau dros y ffôn)

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar **ymwelwyr â 12 o leoliadau twristiaeth ledled Cymru**. Cynhaliwyd 1,622 o gyfweiliadau yng Ngham 1 a chynhaliwyd 811 o gyfweiliadau pellach yng Ngham 2 gydag ymwelwyr â safleoedd o ddiddordeb i'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (gweler tudalen 5).

Roedd hyn yn rhan o Arolwg Ymwelwyr Croeso Cymru 2019, a oedd yn cynnwys cyfweiliadau mewn dau gam ledled Cymru: arolwg wyneb yn wyneb oedd **Cam 1**, ac yna cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn (ar ôl ymweliadau) yng **Ngham 2**. Cynhaliwyd **7,683** o gyfweiliadau wyneb yn wyneb yng Ngham 1, a chynhaliwyd **3,909** o gyfweiliadau dros y ffôn yng Ngham 2. Drwy'r adroddiad, dygwyd cymariaethau rhwng sampl Gwynedd a sampl Cymru gyfan.

Cafodd y data ei bwysoli ar adeg ei ddadansoddi i adlewyrchu'r gyfran o ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr a oedd yn aros dros nos o'r DU ac ymwelwyr tramor yn y rhanbarth. Fe wnaed y gwaith maes rhwng 4 Mai a 22 Tachwedd 2019.

1.2 Canfyddiadau allweddol

Proffil ymwelwyr yn amgueddfeydd Cymru:

Roedd dros un ym mhob deg ymwelydd â Chymru wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod eu taith undydd neu ymweliad dros nos (11%).

Fe ymwelodd tua chwarter yr ymwelwyr tramor ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod eu taith (26%) o'i gymharu â 15% o'r rhai o weddill y DU a 10% o'r rhai o Gymru. Gan adlewyrchu hyn, roedd ymwelwyr dros nos yn fwy tebygol o ymweld ag amgueddfeydd o'i gymharu â'r rhai ar deithiau undydd yng Nghymru (24% o'i gymharu â 10%).

Roedd yr ymwelwyr hynny o aelwydydd mwy cefnog hefyd yn fwy tebygol o ymweld ag amgueddfeydd yn ystod eu hymweliad yng Nghymru/â Chymru (13% o'r ymwelwyr ABC1), na'r ymwelwyr hynny o aelwydydd llai cefnog a oedd yn llawer llai tebygol o ymweld ag amgueddfeydd yn ystod eu taith (8% o'r ymwelwyr C2DE). Yn ddiddorol, mae'r cyfrannau'n gyfartal ar gyfer y gwahanol gategorïau oedran a'r rhywiau.

Yn rhanbarthol, roedd y rhai a oedd yn ymweld â De Cymru'n fwy tebygol o ymweld ag amgueddfa yn ystod eu taith na'r rhai a oedd yn ymweld â rhanbarthau eraill yng Nghymru (15%). Fodd bynnag, y rhai a oedd yn ymweld â Gogledd a Chanolbarth Cymru oedd leiaf tebygol o fod yn ymweld ag amgueddfeydd (9% ac 8% yn y drefn honno). Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw bod mwy o

amgueddfeydd wedi'u lleoli yn Ne Cymru. Er enghraifft, mae pump allan o saith o'r Amgueddfeydd Cenedlaethol yn yr ardal hon.

Agweddau tuag at amgueddfeydd:

Gofynnwyd i ymwelwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau ynglŷn ag amgueddfeydd. Mae rhai o'r gosodiadau wedi cael eu trosi i'w gwneud yn haws i'w dadansoddi. Roedd y gyfran a oedd yn cytuno'n gryf â phob un fel a ganlyn:

- *Pe bawn i'n dymuno, fe allwn i'n rhwydd ganfod gwybodaeth am amgueddfeydd yng Nghymru* - 69%
- *Mae amgueddfeydd ar gyfer pobl fel fi* – 66%
- *Rwy'n mwynhau'r profiad o ymweld ag amgueddfeydd* – 63%
- *Mae amgueddfeydd yn fannau cyfeillgar a chroesawgar* – 57%
- *Mae amgueddfeydd wedi symud gyda'r oes* – 35%

Amllder ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru, y tebygolrwydd o ailymweld a'r tebygolrwydd o'u hargymell:

Roedd dros chwech ym mhob deg ymwelydd wedi ymweld ag amgueddfa o leiaf unwaith yn y flwyddyn ddiwethaf (63%). Roedd hyn ychydig yn is ymhlith ymwelwyr C2DE a'r rhai dros 55 oed. Gellid ystyried bod un ymwelydd ym mhob pump (21%) yn ymwelwyr mynych gan eu bod wedi ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru fwy na 4 gwaith yn y 12 mis diwethaf (21%). Roedd hyn yn codi i chwarter yr ymwelwyr iau a chanol oed (26% ar gyfer y naill a'r llall).

Roedd dros wyth ym mhob deg o'r rhai a oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf yn cytuno y byddent yn ailymweld â'r amgueddfa yn ystod taith i Gymru yn y dyfodol (roedd 85% yn cytuno – roedd 60% yn cytuno'n gryf a 15% yn cytuno i ryw raddau).

Dywedodd cyfrannau yr un mor uchel o'r rhai a oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf hefyd y byddent yn argymhell yr amgueddfeydd yr oeddent wedi ymweld â hwy yn ystod eu taith i Gymru (85% - roedd 62% yn cytuno'n gryf ac 13% yn cytuno i ryw raddau).

Cymhellion dros ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru:

Y rheswm a grybwyllwyd fynyachaf dros ymweld ag amgueddfa oedd er mwyn cael dealltwriaeth fanylach am bwnc yr amgueddfa (63%). Roedd hyn yn codi i saith ym mhob deg (71%) o'r rhai 16-34 oed. Yr ail reswm a grybwyllwyd fynyachaf oedd i brofi pethau neu fannau syfrdanol, difyr neu brydferth a grybwyllwyd gan ychydig o dan chwe ymwelydd ym mhob deg (57%). Eto, cafodd hyn ei grybwyll fynyachaf gan ymwelwyr iau (67% o'i gymharu â 56% o'r rhai 35-54 oed a 54% o'r rhai 55+ oed). Roedd dros hanner yr ymwelwyr hefyd yn ymweld ag amgueddfeydd er mwyn treulio amser gyda phobl eraill mewn lle braf (55%). Roedd hyn yn

bwysicach i ymwelwyr benywaidd (61% o'i gymharu â 48% o ddynion) ac ymwelwyr C2DE (61% o'i gymharu â 53% o ymwelwyr ABC1).

Rhesymau dros beidio ag ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru:

Ar gyfer bron i ddwy ran o dair o'r rhai nad oeddent wedi ymweld ag amgueddfeydd, roedd diffyg amser yn ffactor gan bod gweithgareddau eraill wedi mynd â'r holl amser yn ystod eu taith (65%). Hwn oedd y rheswm a grybwyllwyd gan y gyfran uchaf o ymwelwyr o bell ffordd. Nid oedd dros un ym mhob pump (22%) yn meddwl am amgueddfeydd pan oeddent yn cynllunio eu taith i Gymru neu yng Nghymru, tra bo un ym mhob chwe ymwelydd (17%) yn dweud nad oedd diddordeb ganddynt mewn amgueddfeydd – a hynny'n codi i 25% o'r ymwelwyr C2DE. Dywedodd un arall ym mhob deg nad oedd unrhyw amgueddfeydd gerllaw a oedd o ddiddordeb iddynt (11%) – pwynt a godwyd gan gyfran uwch o ymwelwyr â Chanolbarth a Gorllewin Cymru (19% ar gyfer y naill a'r llall). Yn olaf, dywedodd 10% nad oeddent yn gwybod am unrhyw amgueddfeydd a oedd yn lleol i'w taith, ond roedd hyn yn codi i 48% ar gyfer ymwelwyr â Chanolbarth Cymru.

2. Nodau ac amcanion

Cafodd Beaufort Research gomisiwn gan Croeso Cymru i gynnal Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019, i ddiweddarau canfyddiadau'r don o ymchwil yn 2016 ac olrhain unrhyw newidiadau ym mhroffil, agweddau a bodlonrwydd ymwelwyr â Chymru. Rhoddwyd sylw i dri chategori o ymwelwyr: ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr o'r DU a arhosodd dros nos ac ymwelwyr tramor.

Amcanion allweddol yr arolwg, ar draws ei ddau gyfnod, oedd:

- a. Proffilio ymwelwyr â Chymru (demograffeg, oedran, cylch oes, maint grwpiau a rhyw pobl a'u profiad blaenorol o ymweld â Chymru)
- b. Dadansoddi'r cymhellion dros ddewis Cymru, megis canfyddiadau, profiadau yn y gorffennol, agosrwydd a.y.b.
- c. Canfod manylion am y daith gyfredol – e.e. lleoliad, gweithgareddau a gyflawnwyd, cludiant a ddefnyddiwyd i ac yng Nghymru, llety yr arhoswyd ynddo (os yn berthnasol)
- d. Ymchwilio i agweddau a chael sgorau mewn perthynas â phrofiad ymwelwyr â Chymru, gan gynnwys ar gyfer ystod o gyfleusterau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a hefyd 'ymdeimlad o le' a materion cysylltiedig
- e. Cymharu disgwyliadau ac agweddau cyn ymweliadau â'r profiad ei hun
- f. Ymchwilio i ffactorau megis bwriadau i ymweld yn y dyfodol a thebygolrwydd o argymhell
- g. Proffilio'r defnydd o wybodaeth wrth gynllunio ymweliadau.

Cynigiwyd y cyfle i awdurdodau lleol, partneriaethau twristiaeth a sefydliadau twristiaeth ledled Cymru gefnogi Arolwg Ymwelwyr 2019 trwy hybu nifer y cyfweiliadau mewn lleoliadau penodol, ychwanegu lleoliadau cyfweld newydd neu ychwanegu cwestiynau ardal-benodol i fesur elfennau lleol penodol o brofiad ymwelwyr.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn canolbwyntio ar gyfweiliadau a gynhaliwyd ledled Cymru yn y 12 safle o ddiddordeb i'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd:

- **GOGLEDD:** Canol Tref Biwmares, Promenâd Llandudno, Llanberis, Canol Tref Llangollen,
- **CANOLBARTH:** Promenâd Aberystwyth, Canol Tref Aberhonddu,
- **GORLLEWIN:** Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Canol Tref Dinbych-y-pysgod,
- **DE:** Castell Caerdydd, Canol Tref Cas-gwent, Cwmcarn, Porthcawl

Mae manylion holl leoliadau cyfweld Croeso Cymru a lleoliadau cyfweld a ychwanegwyd trwy gefnogaeth partneriaid i'w cael yn Atodiad I.

3. Methodoleg

3.1 Trosolwg o'r dull

Digwyddodd y cyfweiliadau ar gyfer Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 mewn dau gam:

1. Cam 1: Arolwg wyneb-yn-wyneb:

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda oedolion 16+ oed a oedd ar daith nad oedd yn un reolaidd i'r ardal (ymwelydd undydd neu ymwelydd a arhosodd dros nos).

Casglwyd gwybodaeth ddemograffig gyffredinol megis oedran, rhyw, gradd gymdeithasol, ethnigrwydd, anabledd, man preswyllo a chyfansoddiad y grŵp o ymwelwyr mewn arolwg wyneb-yn-wyneb byr, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru (cyn ymweld).

Cynhaliwyd **1,622** o gyfweiliadau yng Ngham 1 ar draws **12 o leoliadau** ledled Cymru.

2. Cam 2: Arolwg dilynol dros y ffôn:

Cynhaliwyd cyfweiliad manylach, hwy dros y ffôn gyda sampl o ymwelwyr y cyfwelwyd â hwy yng Ngham 1, ar ôl i'w hymweliad ddod i ben. Fe wnaeth hwn gasglu adborth, ar ôl yr ymweliad, ar eu profiad ar y cyfan, gan gynnwys canfyddiadau am Gymru fel cyrchfan twristiaeth, y tebygolrwydd o ailymweld a pha un a fyddent yn argymhell Cymru wrth ffrindiau a pherthnasau. Cynhaliwyd cyfanswm o **811** o gyfweiliadau dros y ffôn gydag ymwelwyr â safleoedd o ddiddordeb i'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

Cafodd y data ei bwysoli ar adeg ei ddadansoddi i adlewyrchu'r gyfran o ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr o'r DU a arhosodd dros nos ac ymwelwyr tramor yn y rhanbarth.

Fe wnaed y gwaith maes rhwng 4 Mai a 22 Tachwedd 2019.

3.2 Samplau a gyflawnwyd yng Nghamau 1 a 2 yn ôl rhanbarth

Tabl 1: Rhanbarth	Cyfweiliadau Cam 1	Cyfweiliadau Cam 2
Gogledd	348	166
Canolbarth	131	66
Gorllewin	231	137
De	921	442
CYFANSWM	1,622	811

4. Canfyddiadau'r ymchwil

4.1 Proffil ymwelwyr ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru

Roedd dros un ym mhob deg ymwelydd â Chymru wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod eu taith undydd neu ymweliad dros nos (11%). Mae Tabl 2 dros y dudalen yn nodi proffil ymwelwyr ag amgueddfeydd yng Nghymru yn 2019.

Fe ymwelodd tua chwarter yr ymwelwyr tramor ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod eu taith (26%) o'i gymharu â 15% o'r rhai o weddill y DU a 10% o'r rhai o Gymru.

Gan adlewyrchu'r cyfrannau uwch o ymwelwyr tramor a oedd yn ymweld ag amgueddfeydd, roedd ymwelwyr nad ydynt yn wyn yn fwy tebygol o ymweld ag amgueddfeydd (17% o'i gymharu ag 11% o'r ymwelwyr gwyn).

Roedd yr ymwelwyr hynny o aelwydydd mwy cefnog hefyd yn fwy tebygol o ymweld ag amgueddfeydd yn ystod eu hymweliad yng Nghymru/â Chymru (13% o'r ymwelwyr ABC1), na'r ymwelwyr hynny o aelwydydd llai cefnog a oedd yn llawer llai tebygol o ymweld ag amgueddfeydd yn ystod eu taith (8% o'r ymwelwyr C2DE).

Yn ddiddorol, mae'r cyfrannau'n gyfartal ar gyfer y gwahanol gategoriâu oedran a'r rhywiau.

Roedd ymwelwyr dros nos yn fwy tebygol o ymweld ag amgueddfeydd o'i gymharu â'r rhai ar deithiau undydd yng Nghymru (24% o'i gymharu â 10%).

Yn rhanbarthol, roedd y rhai a oedd yn ymweld â De Cymru'n fwy tebygol o ymweld ag amgueddfa yn ystod eu taith na'r rhai a oedd yn ymweld â rhanbarthau eraill yng Nghymru (15%). Fodd bynnag, y rhai a oedd yn ymweld â Gogledd a Chanolbarth Cymru oedd leiaf tebygol o fod yn ymweld ag amgueddfeydd (9% ac 8% yn y drefn honno). Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw bod mwy o amgueddfeydd wedi'u lleoli yn Ne Cymru. Er enghraifft, mae pump allan o saith o'r Amgueddfeydd Cenedlaethol yn yr ardal hon – gweler Tabl 2 dros y dudalen.

Tabl 2: Proffil demograffig ymwelwyr ag Amgueddfeydd	%
Cyfanswm	11
Ardal preswyllo	
Cymru	10
Gweddill y DU	15
O wlad dramor	26
Rhywedd	
Gwrywaidd	11
Benywaidd	12
Oedran	
16 - 34 oed	12
35 – 54 oed	11
55+ oed	12
Gradd gymdeithasol	
ABC1	13
C2DE	8
Ethnigrwydd	
Gwyn	11
Heb fod yn wyn / arall	17
Cyflyrau neu namau	
Oes	14
Nac oes	11
Math o ymweliad	
Undydd	10
Dros nos	24
Rhanbarth y daith	
Gogledd	9
Canolbarth	8
Gorllewin	10
De	15


Seiliau = Cam 1 2019: Cymru gyfan (3,909).

DS efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu.

4.2 Agweddau tuag at amgueddfeydd

Gofynnwyd i ymwelwyr ledled Cymru i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau ynglŷn ag amgueddfeydd, a dangosir eu canlyniadau yn Ffigur 1, dros y dudalen. Mae'r canlyniadau'n gadarnhaol ar y cyfan (sylwer bod gosodiadau negyddol wedi cael eu trosi i'w gwneud yn haws eu dadansoddi).

Ffig 1: Agweddau tuag at amgueddfeydd



Seiliau = Cam 2 2019: Yr holl ymwelwyr (811) * Cwestiynau wedi'u trosi: gosodiadau negyddol wedi'u trosi'n rhai cadarnhaol
DS efallai na fydd canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

Caiff yr agweddau eu harchwilio mewn mwy o fanylder isod:

Pe bawn i'n dymuno, fe allwn i'n rhwydd ganfod gwybodaeth am amgueddfeydd yng Nghymru

Hwn oedd y gosodiad a gafodd y sgôr mwyaf cadarnhaol gyda bron i naw ym mhob deg (88%) yn cytuno y gallent yn rhwydd ganfod gwybodaeth am amgueddfeydd yng Nghymru pe baent yn dymuno. Dim ond 2% o'r ymwelwyr oedd yn anghytuno â'r gosodiad hwn tra bo cyfran debyg wedi dweud nad oeddent yn gwybod.

Mae amgueddfeydd ar gyfer pobl fel fi

Cafodd y gosodiad hwn ei drosi i'w gwneud yn haws dadansoddi. Roedd ychydig dros wyth ym mhob deg ymwelydd (81%) yn credu *bod* amgueddfeydd ar gyfer pobl fel nhw, gyda dwy ran o dair yn cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn (66%). Roedd un ym mhob deg ymwelydd yn anghytuno â'r gosodiad hwn gyda 4% yn anghytuno'n gryf bod amgueddfeydd ar eu cyfer nhw. Y grwpiau a oedd fwyaf tebygol o anghytuno oedd:

- Ymwelwyr tramor (Dywedodd 18% *nad yw ar gyfer pobl fel fi*)
- Ymwelwyr C2DE (Dywedodd 16% *nad yw ar gyfer pobl fel fi*)

Rwy'n mwynhau'r profiad o ymweld ag amgueddfeydd

Roedd dros chwech ym mhob deg yn cytuno'n gryf â'r gosodiad hwn (63%). Ar ben hynny, roedd bron pob ymwelydd a oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf yn cytuno â'r gosodiad hwn (95%) ac mae'n werth

nodi bod tua saith ym mhob deg ymwelydd nad oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf hefyd yn cytuno â'r gosodiad hwn (71%).

Mae amgueddfeydd yn fannau cyfeillgar a chroesawgar

Roedd dros wyth ym mhob deg yn cytuno â'r gosodiad uchod (82%), ac roedd y rhai a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod amgueddfeydd yn gyfeillgar a chroesawgar yn perthyn i'r grwpiau canlynol:

- Ymwelwyr tro cyntaf (Mae 90% yn dweud eu bod yn *gyfeillgar a chroesawgar* o'i gymharu ag 81% o ymwelwyr dychwel)
- Y grŵp oedran 16-34 (Mae 85% yn dweud eu bod yn *gyfeillgar a chroesawgar* o'i gymharu ag 80% o'r rhai 55+ oed)


Mae amgueddfeydd wedi symud gyda'r oes

Cafodd y gosodiad hwn ei drosi i'w gwneud yn haws dadansoddi. Er mai hwn oedd y gosodiad a gafodd y sgôr lleiaf cadarnhaol, roedd chwech ym mhob deg yn cytuno serch hynny bod amgueddfeydd wedi symud gyda'r oes (62%). Fodd bynnag, roedd un ym mhob chwech (17%) yn anghytuno â'r gosodiad hwn. Y grŵp a oedd fwyaf tebygol o anghytuno â'r gosodiad hwn oedd ymwelwyr iau 16-34 oed gan nad oedd chwarter (25%) y rhain yn credu bod amgueddfeydd wedi symud gyda'r oes o'i gymharu ag 11% o'r rhai 35-54 oed a 18% o'r rhai dros 55 oed.

4.3 Amllder ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru

Roedd dros chwech ym mhob deg ymwelydd wedi ymweld ag amgueddfa o leiaf unwaith yn y flwyddyn ddiwethaf (63%). Roedd hyn ychydig yn is ymhlith ymwelwyr C2DE a'r rhai dros 55 oed gan mai 59% a 60% yn y drefn honno oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru o leiaf unwaith yn y flwyddyn ddiwethaf.

Ymwelwyr iau a chanol oed oedd fwyaf tebygol o fod yn ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru fynyachaf gan bod dros chwarter wedi bod i amgueddfa yng Nghymru bedair gwaith neu fwy yn y 12 mis diwethaf (26% yr un). Roedd ymwelwyr ABC1 hefyd yn fwy tebygol o ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru'n fwy mynych gan bod tua chwarter wedi bod bedair gwaith neu fwy (24%) – gweler Ffigur 2 am ragor o fanylion.




4.4 Ailymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru a'u hargymell

Roedd dros wyth ym mhob deg o'r rhai a oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf yn cytuno y byddent yn ailymweld â'r amgueddfa yn ystod taith i Gymru yn y dyfodol (Roedd 85% yn cytuno – roedd 60% yn cytuno'n gryf a 15% yn cytuno i ryw raddau).

Dywedodd cyfrannau yr un mor uchel o'r rhai a oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru dros y 12 mis diwethaf hefyd y byddent yn argymhell yr amgueddfeydd yr oeddent wedi ymweld â hwy yn ystod eu taith i Gymru (85% -

roedd 62% yn cytuno'n gryf ac 13% yn cytuno i ryw raddau). Dim ond 2% ddywedodd na fyddent yn argymhell yr amgueddfa/amgueddfeydd yr ymwelon nhw â hi/hwy yn ystod eu taith yng Nghymru – gweler Ffigur 3 isod am ragor o fanylion.



4.5 Cymhellion dros ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru

Gofynnwyd i'r ymwelwyr a oedd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf beth oedd eu rhesymau dros ymweld. Mae Tabl 4 dros y dudalen yn rhestru'r prif resymau a nodwyd.

Y rheswm a grybwyllwyd fynyachaf dros ymweld ag amgueddfa oedd er mwyn cael dealltwriaeth fanylach am bwnc yr amgueddfa (63%). Roedd hyn yn codi i saith ym mhob deg (71%) o'r rhai 16-34 oed. Yr ail reswm a grybwyllwyd fynyachaf oedd i brofi pethau neu fannau syfrdanol, difyr neu brydferth a grybwyllwyd gan ychydig o dan chwe ymwelydd ym mhob deg (57%). Eto, cafodd hyn ei grybwyll fynyachaf gan ymwelwyr iau (67% o'i gymharu â 56% o'r rhai 35-54 oed a 54% o'r rhai 55+ oed). Roedd dros hanner yr ymwelwyr hefyd yn ymweld ag amgueddfeydd er mwyn treulio amser gyda phobl eraill mewn lle braf (55%). Roedd hyn yn bwysicach i ymwelwyr benywaidd (61% o'i gymharu â 48% o ddynion) ac ymwelwyr C2DE (61% o'i gymharu â 53% o ymwelwyr ABC1).

Roedd dwy ran o bump o'r ymwelwyr yn ymweld ag amgueddfeydd er mwyn cael rhagor o wybodaeth am yr ardal yr oeddent yn ymweld â hi. Nid yw'n syndod bod hyn yn fwy pwysig i ymwelwyr sy'n dod o'r tu allan i Gymru (55% o'r rhai o weddill

y DU a 50% o ymwelwyr tramor). Cafodd hyn ei grybwyll yn fwy mynych hefyd gan yr ymwelwyr hynny â Gogledd Cymru (59%).

Dywedodd chwarter yr ymwelwyr hefyd fod ymweld ag amgueddfa'n rhoi amser iddynt fyfyrion ac ystyried (26%) – gweler Tabl 3 isod am ragor o fanylion.

Tabl 3: Rhesymau dros ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf (gydag awgrymiadau)	%
I gael dealltwriaeth fanylach am bwnc	63
I brofi pethau neu fannau syfrdanol, difyr neu brydferth	57
Treulio amser gyda phobl eraill mewn lle braf	55
Cael rhagor o wybodaeth am leoedd yr wyf yn ymweld â hwy neu'n aros ynddynt	41
I fyfyrion ac ystyried	26
Diwrnod braf gyda'r plant – hwyl a dysgu	5
Diddordeb mewn hanes / ym mhwc yr amgueddfa	4
I weld arddangosfa dros dro neu ddigwyddiad	2
Rhywbeth i'w wneud pan fo'r tywydd yn wael	2
Arall	3

Seiliau = Cam 2 2019: Yr holl ymwelwyr sydd wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf (452) DS nid yw'r canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan bod mwy nag un ymateb yn bosibl.

4.6 Rhesymau dros beidio ag ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru

Gofynnwyd i'r rhai nad oeddent wedi ymweld ag unrhyw amgueddfeydd yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf am eu rhesymau. Mae Tabl 5 dros y dudalen yn rhestru'r prif resymau a roddwyd.

Ar gyfer bron i ddwy ran o dair o'r rhai nad oeddent wedi ymweld ag amgueddfeydd, roedd diffyg amser yn ffactor gan bod gweithgareddau eraill wedi mynd â'r holl amser yn ystod eu taith (65%). Hwn oedd y rheswm a grybwyllwyd gan y gyfran uchaf o ymwelwyr o bell ffordd. Ymwelwyr iau ac ymwelwyr â De Cymru oedd fwyaf tebygol o nodi hyn fel eu rheswm dros beidio ag ymweld ag amgueddfeydd (79% a 69% yn y drefn honno).

Nid oedd dros un ym mhob pump (22%) yn meddwl am amgueddfeydd pan oeddent yn cynllunio eu taith i Gymru neu yng Nghymru. Roedd hyn yn fwy tebygol o gael ei grybwyll gan ymwelwyr â Chanolbarth Cymru (40%).

Roedd un ym mhob chwe ymwelydd (17%) yn dweud nad oedd diddordeb ganddynt mewn amgueddfeydd – a hynny'n codi i 25% o'r ymwelwyr C2DE. Dywedodd dros un ym mhob deg nad oedd unrhyw amgueddfeydd gerllaw a oedd o ddiddordeb iddynt (11%) – pwynt a godwyd gan gyfran uwch o ymwelwyr â Chanolbarth a Gorllewin Cymru (19% ar gyfer y naill a'r llall). Yn olaf, dywedodd 10% nad oeddent yn gwybod am unrhyw amgueddfeydd a oedd yn lleol i'w taith, ond roedd hyn yn codi i 48% ar gyfer ymwelwyr â Chanolbarth Cymru – gweler Tabl 4 isod am ragor o fanylion.

Tabl 4: Rhesymau dros <u>beidio</u> ag ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf (gydag awgrymiadau)	%
Gweithgareddau eraill wedi mynd â'r amser i gyd yn ystod eu taith	65
Ddim wedi meddwl am amgueddfeydd wrth gynllunio'r daith	22
Dim diddordeb mewn unrhyw amgueddfeydd	17
Dim amgueddfeydd gerllaw a oedd o ddiddordeb i mi	11
Ddim yn gwybod am unrhyw amgueddfeydd a oedd yn lleol i leoliad y daith	10
Ddim yn gallu dod o hyd i ddigon o wybodaeth am amgueddfeydd	3
Diffyg symudedd / rhesymau iechyd	3
Gwell gen i fod yn yr awyr agored	2
Methu â chyrraedd yno / ddim yn gyrru	2
Arall	5

Seiliau = Cam 2 2019: Yr holl ymwelwyr nad ydynt wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf (297) DS nid yw'r canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% gan bod mwy nag un ymateb yn bosibl.

Atodiad I: Rhestr fanwl o leoliadau'r arolwg

Tabl 6: Lleoliadau unigol yr arolwg yn ôl rhanbarth yng Nghymru

Rhanbarth	Atyniad	Sefydliad cefnogaeth partner (os yn berthnasol)
Gogledd Cymru	Sŵ Môr Môn	
	Canol Tref Biwmares	
	Betws-y-Coed	
	Canol Tref Caernarfon	
	Coed y Brenin	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Glannau Bae Colwyn	
	Canol Tref Conwy	
	Erddig	
	Terfynfa Llongau Fferi / Gorsaf Caergybi	Cyngor Sir Ynys Môn
	Llanberis	
	Promenâd Llandudno	
	Canol Tref Llangollen	
	Parc Gwledig Loggerheads	
	Niwbwrch	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Traphont Pontcysyllte	
Canolbarth Cymru	Canol Tref Porthmadog	
	Promenâd y Rhyl	
	Surf Snowdonia	
	Parc Gwledig Gwepra	
	Zip World (Blaenau Ffestiniog)	
	Promenâd Aberystwyth	
	Canol Tref Aberhonddu	
	Bwlch Nant Yr Arian	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Cardigan Town Centre	
	Pontarfynach	
	Canolfan Ymwelwyr Cwm Elan	
	Machynlleth	Cyngor Sir Powys
	Y Cei Newydd	
	Y Drenewydd	Cyngor Sir Powys
	Castell Powys	
	Storey Arms	
	Canol Tref y Trallwng	
	Ynyslas	Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhanbarth	Atyniad	Sefydliad cefnogaeth partner (os yn berthnasol)
Gorllewin Cymru	Rhaeadr Aberdulais Parc Coedwig Afan Canol Tref Abergwaun Parc Margam Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Tŷ Dinefwr Parc Gwledig Pembre Rhosili, Penrhyn Gŵyr Canol Tref Tyddewi Canol Tref Dinbych-y-pysgod	
South Wales	Canol Tref y Fenni	Cyngor Sir Fynwy
	Glan Môr Ynys y Barri Amgueddfa Lofaol Genedlaethol y Pwll Mawr Rheilffordd Fynydd Aberhonddu Parc Bryn Bach Baddonau Rhufeinig Caerllion Castell Caerffili Castell Caerdydd Castell Coch Canol Tref Cas-gwent Parc Gwledig Cosmeston Fforest Cwmcarn	
	Parc Gwledig Cwm Dâr Garwnant McArthurGlen Canol Tref Trefynwy	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyfoeth Naturiol Cymru Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Cyngor Sir Fynwy
	Amgueddfa Cymru, Caerdydd	
	Pier Penarth	Cyngor Bro Morgannwg
	Promenâd Porthcawl Parc Treftadaeth y Rhondda Canolfan Gopa Rock UK Profiad y Bathdy Brenhinol Amgueddfa Werin Sain Ffagan Abaty Tyndyrn Tŷ Tredegar Canolfan Mileniwm Cymru/Bae Caerdydd	

Atodiad II: Holiadur arolwg Cam 1 (cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb)

Atodiad III: Holiadur arolwg Cam 2 (cyfweiliadau dros y ffôn)

enquiries@beaufortresearch.co.uk
www.beaufortresearch.co.uk